Llawlyfr Gwyn Gogledd Cymru

Cysoni Cadwraeth ac Adloniant

Dringo Gaeaf yn Eryri

1 Llawlyfr Gwyn Gogledd Cymru

Yn sgîl gaeafau da yn ddiweddar mae llawer mwy o bobl wedi dod i ddringo ar yr eira a'r rhew, gan beri pryder am effeithiau posibl yr holl weithgaredd yma ar blanhigion arbennig clogwyni Eryri. Mae hyn yn arbennig o wir gan fod lleoliad deheuol Eryri'n golygu na cheir gorchudd eira da bob amser a gall dringo'r eira a'r rhew yn yr amodau gwael hyn achosi niwed.

Wedi ymweld â'r Clogwyn Du ar ôl gaeaf prysur iawn 2009/10, canfu'r Cyngor Cefn Gwlad a'r Cyngor Mynydda nad oedd unrhyw effaith i'w gweld ar gyflwr llystyfiant y silffoedd a'r agennau. Serch hynny, gyda phoblogrwydd cynyddol dringo gaeaf rhaid inni i gyd fod yn ymwybodol o'n heffaith bosibl a chymryd camau i'w lleihau.

Yn wahanol i'r cyfyngiadau dringo tymhorol i warchod adar sy'n nythu ar y clogwyni, does dim modd dibynnu ar gyfyngiadau dros dro i reoli mynediad i fannau lle mae planhigion pwysig, gan fod y planhigion yno drwy'r amser. Mae llawer o'r clogwyni sy'n bwysig i ddringwyr gaeaf yn eang a heb gael arolwg llawn o'u tyfiant. (Pwy sydd am gario rhaffau 300m i ben yr **Ysgolion Duon** i wneud arolwg ar abseil!).

Ond y mae sawl man lle gwyddom fod planhigion prin yn tyfu neu sy'n arbennig o gyforiog o dyfiant ac mae angen i ddringwyr roi ystyriaeth arbennig i'r rhain wrth benderfynu pa bryd, ble a hyd yn oed sut i ddringo. Dydi hyn ddim yn golygu y gallwn ddringo fel y mynnwn ym mhobman arall, gan y gallai fod rhywogaethau prin sydd heb eu darganfod eto, ond mae angen gofal arbennig yn y llefydd hyn, yn enwedig gan y gallai rhai o'r clogwyni mawr, mwy toredig a deiliog fod heb eu haflonyddu erioed o'r blaen.

Mae'r 'topos' (mapiau topograffig) yng nghanol y llawlyfr dwyieithog hwn yn dangos y rhannau arbennig hyn o'r clogwyni wedi'u hamlygu'n **wyrdd**. Cafodd llawer o'r rhain eu harolygu drwy sgrialu o gwmpas ym misoedd yr haf felly maen nhw'n agos at waelod dringfeydd neu ar risiau yn y graig yn uwch i fyny'r clogwyn. Mae hyn yn arbennig o wir ar **Glogwyn y Garnedd** dan gopa'r Wyddfa lle mae ardaloedd helaeth yn hygyrch yn yr haf. Arolygwyd ambell glogwyn, fel y **Clogwyn Du**, ar abseil – yma, mae'r mannau pwysicaf ar y chwith uchaf (wrth edrych i mewn) ac o gwmpas pen isaf Cangen Chwith y Clogwyn.

Prin iawn fu'r arolygu ar rai clogwyni oherwydd anhawster mynd atynt. Er enghraifft, fe welwch ran fach o'r **Ysgolion Du** wedi'i hamlygu yn y topo, ond rhaid bod llawer iawn mwy ar y clogwyn hwn! Mewn llefydd eraill fel Cwm Idwal, amlygwyd y cyfan o **Glogwyn y Geifr** oherwydd mae'n wybyddus fod hwn yn un o'r safleoedd gorau ym Mhrydain am blanhigion mynydd. Yn aml gallwn farnu ble y gallai'r safleoedd gorau am blanhigion fod drwy adnabod daeareg clogwyn; po frasaf fo'r creigiau a'r priddoedd, gorau fydd y tyfiant. Ond nid yw hynny'n gweithio bob amser; mewn rhai llefydd gall dŵr sy'n trylifo oddi uchod ddod â llawer o faetholion i greigiau a fyddai fel arall yn asidig, ac mae'n well gan rai planhigion prin greigiau llai breision.

Tyfiant uchel ar Glogwyn y Geifr, Cwm Idwal. llun: Barbara Jones

Yn rhai o'r ardaloedd hyn ceir planhigion arctig-alpinaidd mewn holltau ac agennau sydd wedi gwreiddio'n fas ac a allai felly gael eu niweidio a'u dadwreiddio'n hawdd gan geibiau a chramponau mewn amodau eira a rhew ymylol neu'n fwy fyth wrth glirio lle i osod dyfeisiau diogelu. Mewn mannau eraill gellir canfod mwy o dyfiant 'silff' y tu hwnt i gyrraedd defaid pori. Yn yr haf ar glogwyni â mathau craig addas gwelir sbloet o liw ac amrywiaeth o fathau o blanhigion gan gynnwys cronellau, prennau'r ddannodd a llysiau'r angel yn tyfu ac weithiau'n ymdebygu i erddi crog. Ewch at droed yr **Ysgolion Du** yn yr haf ac fe welwch enghreifftiau da. Caiff y rhain eu niweidio hawsaf wrth ddringo pan nad yw'r tyweirch wedi rhewi a phan fydd sathru'n chwalu'r gorchudd tyfiant ac yn erydu'r pridd.

Os am ddringo llinell newydd yn un o'r mannau arbennig sydd wedi'u marcio ar y topos gwnewch yn siŵr eich bod yn troedio'n ofalus. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, cysylltwch â'r Cyngor Cefn Gwlad (**j.roberts@ccw.gov.uk**) neu'r **Cyngor Mynydda** (**elfyn@thebmc.co.uk**) am gyngor.

Mewn amodau gaeaf da pan fydd digon o eira caled a rhew, fydd cerddediad dringwyr ddim yn broblem fel arfer; daw'r problemau pan fydd yr amodau'n ymylol, pan geir gorchudd tenau o eira neu rew a phan nad yw'r tyweirch wedi rhewi. Gall y tyfiant hefyd fod wedi rhewi'n rhannol neu'n 'awyrog' lle bydd llawer o bocedi aer yn y clustogau planhigion neu ar y silff lle mae'r tyfiant. Bydd y rhain yn rhewi'n gorn yn ddiweddarach yn y tymor, ond tra maent yn awyrog, gallant yn hawdd gael eu niweidio wrth geisio cael lleoliad diogel i gaib. Mae defnyddio technegau offeru sych ar lwybrau cymysg (fel trorymu caib i mewn i hollt) yn broblem bosibl hefyd.

Jon Ratcliffe ar **The Sting** V 6, Clogwyn y Geifr llun: Si Panton

Tyfiant uchel ar yr Ysgolion Duon. llun: Barbara Jones

Beth yw'r 'arfer gorau' a beth sy'n 'amodau da'?

- Bydd canfod beth yw'r amodau ymlaen llaw yn help i'ch arbed rhag gwneud siwrnai seithug. Cyn penderfynu ar lwybr ystyriwch gynifer o ragolygon tywydd ac adroddiadau amodau ag y gallwch. Mae digon o ddewis y dyddiau hyn felly does dim esgus dros gyrraedd y graig mewn anwybodaeth. Wrth fwrw golwg drwy'r gwahanol flogiau, gwefannau newyddion a fforymau ar-lein sy'n ymdrin â dringo gaeaf dylech allu cael darlun o'r hyn sy'n digwydd ar y mynyddoedd. Os nad ydych yn byw yn yr ardal mae cyswllt lleol yn ddefnyddiol hefyd.

Miles Perkin yn gosod caib yn y silff dyweirch wedi rhewi uwchlaw'r man allweddol isaf ar **El Mancho** VI 7, Clogwyn Du llun: Tim Neill

- Mewn rhai achosion, yn enwedig pan nad oes modd gweld yn bell, fydd hi ddim yn glir sut mae'r amodau yn lleol nes ichi gyrraedd troed y clogwyn. Wedi cyrraedd dylech wneud asesiad cychwynnol. Yn gyntaf, dylai'r ddaear, a'r tywerch yn arbennig, fod wedi rhewi'n gorn. Wrth ichi roi eich caib yn y ddaear, os daw allan yn wlyb a mwdlyd mae'n ddigon hawdd gweld nad yw'r amodau'n iawn ar gyfer dringo gaeaf.
- Yn ddelfrydol dylai popeth fod dan eira a rhew, a dylai fod yn amlwg aeafol, ond mae llawer o lwybrau cymysg cyfoes yn dibynnu bron yn gyfan gwbl ar ddaear wedi rhewi (sylwer – rhaid iddi fod wedi rhewi!). Ni ellir hawlio bod dringo mewn amodau 'meddal' yn ddringo gaeaf go iawn. Rydych yn debygol iawn o achosi difrod difrifol; gallech hefyd ddifetha'r llwybr o safbwynt dringo drwy rwygo tywerch allweddol i ffwrdd.
- Gall techneg dda helpu lleihau difrod – dylech ymarfer mewn llefydd llai sensitif a datblygu'ch sgiliau cyn mynd allan i'r safleoedd mwy bregus a amlygir yma. Bydd dringwr profiadol yn gwybod ble i edrych am y lleoliadau gorau i osod offer ac felly mae'n llai tebygol o achosi niwed.
- Mae'n bwysig cadw min ar eich arfau. Bydd caib finiog yn creu llai o ddifrod, yn gofyn am lai o ymdrech i'w ddefnyddio ac yn fwy tebygol o alluogi gafael da ar y cynnig cyntaf.
- Mae'n bwysig troedio'n gall – mae gosod cramponau'n ofalus yn llawer mwy effeithlon, ac eto, mae'n llai tebygol o arwain at ddifrod i'r tywerch a'r llystyfiant. Ceisiwch osgoi unrhyw fath o sgrialu neu gicio gwyllt. Beth am ddefnyddio cramponau un-pwynt – maen nhw'n annog troedio manylach ac yn caniatáu mwy o gywirdeb.
- Mae'n hanfodol gosod offer mewn creigiau ar gyfer belaiau a gwarchodaeth, ond dylid osgoi clirio tywerch a thyfiant allan o holltau ar y mannau hyn – dyma'n wir y mannau mwyaf bregus lle ceir y planhigion prinnaf (gan gynnwys lili'r Wyddfa a phlanhigion eraill sydd dan warchodaeth).

Yn olaf, ystyriwch y datganiad hwn gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru:

"Gallai unrhyw weithredoedd bwriadol neu ddi-hid sy'n niweidio planhigion neu gynefinoedd sydd dan warchodaeth arwain at erlyn, a chreu cyfyngiadau sylweddol ar fynediad yn y dyfodol."

Planhigion i gadw golwg amdanynt

Yn yr adran hon rhoddir manylion rhai o'r planhigion pwysig sydd i'w cael ar y clogwyni sy'n denu dringwyr gaeaf. Gellir gweld rhai yn ystod y gaeaf, ond bydd eraill yn swatio mewn holltau rhag tywydd y gaeaf yng Nghymru. Mae'r rheiny'n arbennig o fregus os gwneir unrhyw waith clirio holltau ac agennau.

***Polystichum lonchitis*/Rhedyn Celyn** *[llun 1]*
Rhedyn prin yng Nghymru nad yw ond i'w weld mewn ambell le yn Eryri. Fe'i gwelir yn y gaeaf a gellir ei adnabod drwy'r ymyl danheddog nodweddiadol ar y ffrondau. Mae'r llun yn dangos y math o gynefin y mae'n ei hoffi – agennau gyda rhywfaint o gysgod.

***Saxifraga oppositifolia*/Tormaen Porffor** *[llun 2]*
Mae hwn yn adnabyddus gan mai dyma'r rhywogaeth gyntaf i flodeuo, a hynny'n aml ym mis Chwefror, a gall flodeuo drwy'r eira, felly gallai dringwyr gaeaf ei weld. Mae'n aros ar wyneb y ddaear yn y gaeaf ar ffurf crugyn ymgripiol o ganghennau bychain neu dwmpath mwy cryno a gellir ei adnabod drwy'r dail mân gyferbyn â'i gilydd a defnyn sgleiniog bychan ar y pen fel a welir yn y llun.

***Silene acaulis*/Gludlys Mwsoglog** *[llun 3]*
Planhigyn clustog yw hwn sy'n gallu glynu wrth wynebau craig serth fel yn y llun. Nid yw'n blodeuo tan ddiwedd Mai a dechrau Mehefin ond mae'r siâp clustog yn amlwg (ychydig fel fersiwn llai o'r clustogau Mair a geir ar glogwyni'r môr). Gallai'n hawdd ffurfio clustog wedi'i rhewi a fyddai'n eich temtio i osod caib ynddi, ond fyddai hi ddim yn gadarn iawn ac felly dylid osgoi gwneud hynny am resymau amgylcheddol a diogelwch.

***Lloydia serotina*/Lili'r Wyddfa** *[llun 4]*
Dyma rywogaeth enwog, ond prin, serch hynny. Mae'r llun (o'r **Clogwyn Du**) yn dangos y math o hollt y mae'n tyfu ynddo a sut y gellid ei ddifrodi drwy or-lanhau neu ffustio ceibiau! Bydd y dail a'r blodau'n nychu'n gyfan gwbl yn y gaeaf, gan adael dim ond gweddillion bylbiau'n pigo'u trwynau allan o'r hollt.

1

2

3

4

Topos Creigiau
Mae'r topos creigiau yn yr adran hon yn dangos y mannau lle gwyddom fod planhigion prin yn tyfu neu sy'n arbennig o doreithiog o blanhigion sydd angen ystyriaeth arbennig gan ddringwyr. Mae'r rhannau hyn o'r clogwyni wedi'u hamlygu'n **wyrdd**. Os yw'r amodau'n dda gallwch ddringo yn y mannau hyn, ond rhaid cymryd gofal arbennig a throedio cyn ysgafned ag y gallwch.

Allwedd y Topo

Pwyll pia hi, dyma ardal lle ceir planhigion prin neu dyfiant hawdd ei niweidio.

Llinellau'r prif lwybrau i hwyluso eu hadnabod.





Clogwyn y Geifr



Cyrn Las



Bwtres Rheilffordd • **Cwm Hetiau**



Clogwyn y Garnedd • Ardal Great Gully Area



Clogwyn Du'r Arddu



Llawlyfr Gwyn Gogledd Cymru

Cysoni Cadwraeth ac Adloniant
Dringo Gaeaf yn Eryri

Diolchiadau
Cywaith yw hwn gan Barbara Jones a Joe Roberts (Cyngor Cefn Gwlad), Simon Panton (cydawdur a golygydd llawlyfr diweddar Ground Up i ddringwyr gaeaf yn y Gogledd) ac Elfyn Jones (Cyngor Mynydda Prydain). Cynhyrchwyd a chyhoeddwyd y gwaith gan Ground Up gyda Simon Panton yn olygydd ac Al Williams yn gyfrifol am y dylunio. Cafwyd cyfraniadau gwerthfawr gan Chris Wright, Mark Lynden, Ray Wood, Mark 'Baggy' Richards, Cath Flitcroft a Dave Turnbull. Cyfrannwyd lluniau gan Simon Panton, Dafydd Davis, Chris Parkin, Miles Perkin, Tim Neill, Graham Desroy, John Swain, Olly Sanders, Barbara Jones a'r Cyngor Cefn Gwlad. Ariannwyd y prosiect gan y Cyngor Cefn Gwlad, y Cyngor Mynydda, Eryri-Bywiol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

RAD (Cronfa Ddata Mynediad Rhanbarthol)
Y RAD yw'r lle i fynd am bob gwybodaeth ynghylch mynediad a chadwraeth – o gyfyngiadau nythu, i gyngor ar gadwraeth neu wybodaeth am lecynnau parcio. Cewch hyd iddo ar y dudalen "Access & Conservation" ar wefan Cyngor Mynydda Prydain:
www.thebmc.co.uk/bmccrag

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod dringo, mynydda a cherdded y bryniau'n weithgareddau lle mae perygl anaf personol neu farwolaeth. Dylai pobl sy'n cymryd rhan fod yn ymwybodol o'r peryglon hyn a derbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain.

Clawr: Streaky Desroy ar brif ddringen **Couloir** IV 4, Clogwyn y Garnedd. llun: Dafydd Davis.